Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A Davis | A M Day | S M Jones |
| S Joy | J D McGettrick | F D O'Brien |
| A J O'Connor | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Beth Allender | | |

**Hefyd yn bresennol**
Robert Smith

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Helen Howells | Rheolwr tîm Cefnogi Disgyblion |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Kate Phillips | Rheolwr yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): B Hopkins a/ac S E Keeton
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Elizabeth Lee

---

76 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

77 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

78 **Cofnodion**

Cytunodd y Panel ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2023.

79 **Llythyrau**

Nodwyd y llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn cyfarfod y Panel ar 15 Mehefin 2023.

80 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

81 **Rheoli a Gwella Presenoldeb yn yr Ysgol, gan gynnwys data**

Diolchodd y Panel i'r Cynghorydd Robert Smith (Aelod y Cabinet dros Ddysgu a Sgiliau), Helen Morgan Rees (Cyfarwyddwr Addysg), Kate Phillips (Pennaeth Dysgwyr Agored i Niwed) a Helen Howells (Rheolwr Tîm Cefnogi Disgyblion) am fynd i gyfarfod y Panel ac am gyflwyno adroddiad ysgrifenedig a oedd yn rhoi manylion ynghylch rheoli a gwella presenoldeb ysgol yn Abertawe. Roedd y drafodaeth yn cynnwys y canlynol:

- Presenoldeb yn ysgolion Abertawe a data
- Polisi presenoldeb 2023
- Cynllun Gweithredu Presenoldeb a'r pum blaenoriaeth allweddol
- Strategaethau pellach i wella presenoldeb

Codwyd y materion/cwestiynau canlynol gan y Panel. Bydd crynodeb o farn y Panel ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phresenoldeb ysgol a'r ymatebion i'w cwestiynau yn rhan o'r llythyr a anfonir at yr Aelod Cabinet yn dilyn y cyfarfod.

- Mae'n galonogol bod y ffigurau'n gwella a byddem yn disgwyl i hynny barhau yn awr.
- Beth fu'r newid o ran ymagwedd.
- A oes unrhyw astudiaethau/ymchwil ar gael i'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb (clywodd y Panel fod adroddiad gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys yr wybodaeth hon. Bydd dolen i'r wybodaeth hon yn cael ei ddosbarthu i'r Panel).
- A yw nifer y gofalwyr ifanc wedi cynyddu ers COVID.
- Pa ddulliau gweithredu ac ymyriadau sy'n cael eu defnyddio ar draws ysgolion.
- A yw nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref wedi cynyddu ers COVID.
- A yw'r data sydd ar gael yn darparu unrhyw dueddiadau mewn grwpiau blwyddyn, er enghraifft, ac a oes unrhyw effaith ar bresenoldeb disgyblion ym mlynyddoedd pontio ysgol COVID sydd bellach yn symud ymlaen drwy'r grwpiau blwyddyn.

82 **Rheoli a Gwella Gwaharddiadau Ysgol, gan gynnwys data**

Diolchodd y Panel i'r Cynghorydd Robert Smith (Aelod y Cabinet dros Ddysgu a Sgiliau), Helen Morgan Rees (Cyfarwyddwr Addysg), Kate Phillips (Pennaeth Dysgwyr Agored i Niwed) a Helen Howells (Rheolwr Tîm Cefnogi Disgyblion) am fynd i gyfarfod y Panel ac am gyflwyno adroddiad ysgrifenedig a oedd yn rhoi manylion ynghylch rheoli a gwella nifer y gwaharddiadau ysgol yn Abertawe. Roedd y drafodaeth yn cynnwys y canlynol:

- Agwedd Abertawe at waharddiadau

- Data gwaharddiadau
- Ymyriadau i hybu cynhwysiant

Codwyd y materion/cwestiynau canlynol gan y Panel.  Bydd crynodeb o farn y Panel ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â gwaharddiadau a'r ymatebion i'w cwestiynau yn rhan o'r llythyr a anfonir at yr Aelod Cabinet yn dilyn y cyfarfod.

- Mae yna nifer bach o ysgolion sy'n wynebu her unigryw, beth maen nhw'n ei wneud i fynd yn groes i'r duedd a lleihau gwaharddiadau.
- Yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda mewn perthynas â gwella nifer y gwaharddiadau. Sut mae arferion da yn cael eu rhannu.
- A oes gan bob ysgol ei chymorth bugeiliol ei hun.
- Pa mor hir yw gwaharddiadau cyfnod penodol.
- A yw Cydlynwyr Ardaloedd Lleol yn ymwneud â siarad â rhieni/theuluoedd.

83 **Cynllun Gwaith 2023/2024**

Nodwyd y cynllun gwaith ar gyfer 2023/2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm

**Cadeirydd**